| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | 4 |

**Lefel Mynediad**

701/01

**CYMRAEG**

A.M. DYDD LLUN, 10 Mawrth 2008

1 awr

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion ar y llinellau priodol yn y llyfryn hwn.

Atebwch y cwestiynau fel y maent yn ymddangos yn y llyfryn hwn.

**Cwestiynau 4 a 5 yn unig**

Os nad ydych yn gallu deall cwestiynau 4 a 5 codwch eich llaw a bydd yr athro yn darllen y cwestiynau i chi.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Ni chewch ddefnyddio geiriaduron.

**1.** Darllenwch y ffeithiau ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn. [10]



Rydych chi'n gallu **AILGYLCHU**:

- papur
- gwydr
- caniau
- plastig

*(a)* Rydych chi'n gallu ailgylchu sawl peth. Enwch **ddau**. [½ + ½]

(i) ..............................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................

Rydych chi'n gweld y poster hwn yn yr ysgol. Darllenwch y poster yn ofalus ac atebwch y cwestiynau.




Lluniau: www.qualitylogoproducts.com; www.bu.edu; www.asi.fullerton.edu.

*(b)* Enwch **ddau** beth y gall athrawon yr ysgol eu gwneud i arbed trydan. [1+1]

(i) ..................................................................................................................................

(ii) ..................................................................................................................................

*(c)* Pryd mae'r cyfarfod nesaf? [½ + ½]

..................................................................................................................................

Arholwr yn unig

## PANELI SOLAR

Rydych chi'n gallu rhoi paneli solar ar y to er mwyn creu egni. Mae'r paneli yn gallu cynhesu dŵr a chreu trydan.




www.search.com

*(ch)* Enwch **ddau** beth y gallwch chi eu creu gyda phaneli solar. [2]

(i) ..........................................................................................

(ii) ..........................................................................................



www.richard-seaman.com

## FFERMYDD GWYNT

Mae ffermydd gwynt yn gallu creu trydan ond mae rhai pobl yn meddwl eu bod nhw'n swnllyd iawn. Mae'r melinau gwynt mwyaf yn uwch na'r adeilad uchaf yng Nghymru, tŵr Capitol yng Nghaerdydd.



www.answers.com

*(d)* Enwch **un** peth drwg am ffermydd gwynt. [1]

..........................................................................................

*(dd)* Beth yw'r adeilad uchaf yng Nghymru? [1]

..........................................................................................



## PEIRIANT GOLCHI DILLAD

Mae'r peiriant golchi dillad yn defnyddio mwy o ddŵr nag unrhyw beiriant arall yn ein tai. Mae'n defnyddio tua 55 galwyn bob tro rydych yn ei ddefnyddio. Byddai'r dŵr yma yn gallu llenwi tanc pysgod.

Lluniau: www.washerhelp.co.uk
www.crazysquirrel.com



*(e)* Pa beiriant sy'n defnyddio'r mwyaf o ddŵr yn ein tai? [1]

..............................................................................................................................

*(f)* Faint o ddŵr mae'r peiriant yn ei ddefnyddio?
Rhowch gylch o amgylch yr ateb cywir. [1]

55 galwyn tua 55 galwyn dros 55 galwyn

**2.** Dyma'r tywydd mewn pum tref yng Nghymru ar gyfer dydd Llun a dydd Mawrth. Darllenwch y wybodaeth yn ofalus ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn. [5]

| Tref | Dydd Llun | Dydd Mawrth |
|---|---|---|
| Llandudno | Haul | Haul |
| Aberteifi | Storm | Haul |
| Pen-y-bont | Glaw trwm | Cymylau |
| Caernarfon | Haul | Haul |
| Pontypridd | Haul | Glaw ysgafn |

Lluniau: www.bbc.co.uk

Arholwr yn unig

*(a)* Sut dywydd fydd yn Llandudno ddydd Llun? [1]

..............................................................................................................................

*(b)* Ble bydd glaw trwm ddydd Llun? [1]

Tref ......................................................................................................................

*(c)* Ym mha dref bydd glaw ysgafn ddydd Mawrth? [1]

Tref ......................................................................................................................

*(ch)* Pa **ddwy** dref fydd yn gweld haul ddydd Llun a dydd Mawrth? [½ + ½]

Tref ......................................................................................................................

Tref ......................................................................................................................

*(d)* Ar ba ddydd bydd storm? Ym mha dref? [½ + ½]

Dydd ....................................................................................................................

Tref ......................................................................................................................



**Trosodd.**

**3.** Darllenwch y sgwrs rhwng Siân a'i mam yn ofalus ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn. [10]



*Mae Siân (16 oed) newydd gyrraedd adref o'r ysgol. Mae ei mam wrthi'n darllen y papur newydd. Mae'r newyddion ar y teledu ond does neb yn ei wylio.*

**Mam**: Gest ti ddiwrnod da yn yr ysgol heddiw Siân?

**Siân**: *(yn cwyno)* Naddo! Pob un o'r gwersi'n ddiflas a Mr Jones yn rhoi cosb i fi amser egwyl.

**Mam**: Pam mae Mr Jones wedi rhoi cosb i ti?

**Siân**: Dw i ddim yn gwybod. Dim ond cnoi gwm yn y wers Mathemateg roeddwn i. Rwy'n siŵr bod athrawon yn mwynhau cosbi plant.

**Mam**: Paid â bod mor ddiflas. Mae'n rhaid bod rhywbeth diddorol wedi digwydd. Rwyt ti'n mwynhau'r gwersi Ffiseg fel arfer.

**Siân**: Ydw, achos bod Miss Price yn gadael i fi gnoi gwm yn y gwersi a dyw hi byth yn gweiddi arna i.

**Mam**: *(yn troi nôl at ddarllen y papur newydd)* O... a beth ddysgoch chi yn y wers Ffiseg heddiw?

**Siân**: Fe ddysgon ni fod y byd yn cynhesu a bod tywydd y byd yn mynd i fod yn wahanol yn y dyfodol. Dywedodd Miss Price y byddai Cymru'n llawer mwy cynnes yn y dyfodol.

**Mam**: Am newyddion da. Fydd dim angen gwario cymaint o arian ar nwy i gadw'r tŷ yn gynnes yn y gaeaf.

**Siân**: Dywedodd Miss Price hefyd na fyddai eira ar rai mynyddoedd mewn ugain mlynedd os bydd y byd yn dal i gynhesu.

**Mam**: Beth? Dim eira? Sut bydda i'n gallu mynd i sgïo os nad oes eira?

**Siân**: Dw i ddim yn credu y byddi di'n gallu mynd i sgïo. Roedd un daflen waith yn esbonio sut i arbed egni nawr trwy ailgylchu mwy, defnyddio llai o ddŵr...

**Mam**: Gad i fi weld y daflen 'na. Os yw'n golygu y galla i fynd i sgïo mewn ugain mlynedd mae eisiau dechrau arbed egni nawr (*yn diffodd y teledu*). Gallwn ni ddechrau arbed trydan wrth wylio llai o deledu!

Arholwr yn unig

*(a)* Pam mae Siân wedi cael cosb yn y wers Mathemateg? [½]

..............................................................................................................................................

*(b)* Beth yw enw athrawes Ffiseg Siân? [½]

..............................................................................................................................................

*(c)* Rhowch **un** rheswm pam mae Siân yn mwynhau'r gwersi Ffiseg. [1]

..............................................................................................................................................

*(ch)* Enwch **ddau** beth a ddysgodd Siân yn y wers Ffiseg. [2]

(i) ..............................................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................................

*(d)* Beth yw'r newyddion da yn ôl mam Siân? [1]

..............................................................................................................................................

*(dd)* Beth yw'r newyddion drwg yn ôl mam Siân? [1]

..............................................................................................................................................

*(e)* Enwch **un** ffordd y gallai Siân a'i mam arbed egni. [1]

..............................................................................................................................................

*(f)* Beth yw'r peth cyntaf y mae mam Siân yn ei wneud i arbed egni? [1]

..............................................................................................................................................

*(ff)* Rhowch y geiriau hyn yn nhrefn yr wyddor. [2]

trydan, egni, nwy, ailgylchu, gaeaf, eira

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

**4. Ysgrifennu llythyr.** [15]



Dychmygwch eich bod chi wedi bod ar wyliau ac wedi hedfan ar awyren. Roedd problem ar yr awyren ar y ffordd adref a doeddech chi ddim yn hapus. Ysgrifennwch at reolwr y cwmni gwyliau i gwyno gan ddweud:

(i) i ble'r aethoch chi ar wyliau;
(ii) beth oedd y broblem ar yr awyren;
(iii) pam nad oeddech chi'n hapus;
(iv) beth rydych chi eisiau i'r cwmni ei wneud.

Enw a chyfeiriad y rheolwr:
**Mr Gwyn Davies, Haul Hawdd, 124 Heol y Brenin, Bangor LL55 2NS.**

**Cofiwch:**
- ysgrifennu eich cyfeiriad chi a chyfeiriad y cwmni;
- ysgrifennu mewn paragraffau.

**Cymerwch ofal wrth osod y llythyr.**

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

Arholwr
yn unig



Trosodd.

**5. Ysgrifennu sgwrs ffôn.** [10]



Mae'n ddiwrnod braf iawn. Mae ffrind yn eich ffonio i geisio eich perswadio i wneud rhywbeth arbennig. Ar y dechrau, dydych chi ddim eisiau mynd, ond mae eich ffrind yn llwyddo i newid eich meddwl. Ysgrifennwch y sgwrs ffôn.

**Cofiwch ddweud:**

- beth yw syniad eich ffrind;
- pam nad ydych chi eisiau mynd;
- sut mae eich ffrind yn llwyddo i newid eich meddwl.

**Cymerwch ofal wrth osod y sgwrs a chofiwch ysgrifennu'n ddiddorol.**







Arholwr yn unig